# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Siwgr Plwm Cyf**

**Ffordd Heulog**
**Llanedwen**
**LL61 6EQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

2/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Meithrinfa Siwgr Plwm Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Meithrinfa Siwgr Plwm Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 70 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br><br>28 Chwefror 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br><br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, gan ffurfio cydberthnasau, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda yn gyson ac mae'r plant yn cydweithredu yn dda ac yn ymgysylltu a mynegi diddordeb yn weithredol. Cânt ryddid i archwilio eu hamgylcheddau chwarae dan do ac awyr agored gan ddatblygu eu medrau annibyniaeth yn dda.

Mae llawer o'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth o'u rôl. Maent yn gweithio tuag at roi'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith mewn modd addas er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gweithgareddau corfforol, ond mae angen gwella rhai meysydd. Mae'r staff yn cefnogi'r plant i fynegi eu hunain yn addas wrth iddynt dderbyn ymateb priodol, ac mae iaith eu cartref yn cael ei chydnabod. Yn gyffredinol, mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau boddhaol ar waith i sicrhau bod pawb yn gyffredinol ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gyffredinol ddiogel a sicr, a'i fod wedi'i gynnal a'i gadw'n rhesymol o dda, o dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig ac wedi ymrwymo i wneud gwelliannau. Maent yn rheoli'r lleoliad yn briodol; fodd bynnag, mae meysydd y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.

| Llesiant | Da |
| --- | --- |

Mae’r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn rhydd i archwilio eu hardal chwarae er mwyn gwneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae’r plant yn rhyngweithio’n gadarnhaol ac yn cymryd rhan weithredol yn eu chwarae a’u dysgu.

Mae’r plant yn mynegi eu hunain yn dda ac roeddent yn mwynhau cael trafodaethau gyda’u ffrindiau, gyda ninnau a’r staff. Ymatebodd y staff ar unwaith i geisiadau di-eiriau y plant iau am fwy o uwd amser brecwast. Roedd plentyn yn falch o ddangos ei chwpan i ni ac enwodd y lliwiau arno yn Gymraeg. Dywedodd y plant hŷn wrthym eu bod yn hoff iawn o’r bwyd yn y lleoliad a’u bod yn mwynhau dod yma i chwarae gyda’u ffrindiau.

Mae’r plant yn ymgartrefu’n dda gan eu bod yn cael eu cyfarch yn gynnes gan staff cyfeillgar. Maent yn mynd at y staff yn rhwydd i wneud eu ceisiadau ac i gael mwythau pan fo angen. Roedd plentyn wedi ymlacio ac yn gyfforddus wrth i’w gewyn gael ei newid, a bu’n sgwrsio â’r aelod o staff am y lluniau gwahanol ar y mat newid. Mae’r plant yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac yn paratoi eu hunain yn dda ar gyfer amser bwyd a chwarae yn yr awyr agored.

Mae’r plant yn rhyngweithio’n gadarnhaol. Maent yn cydweithio’n dda i dacluso eu teganau. Mae’r plant iau yn mwynhau helpu; er enghraifft, helpodd plentyn i weini cwpanau i’w ffrindiau a gwenodd wrth ddweud enw pob ffrind. Mae’r plant yn mwynhau’r achlysur cymdeithasol yn ystod amser bwyd; maent yn gwrtais ac yn eistedd yn dwt wrth y bwrdd. Mae’r plant hŷn yn chwarae’n dda gyda’u ffrindiau iau; er enghraifft, helpodd plentyn hŷn ffrind iau i ddymchwel côn gyda phêl a dathlodd ei gyflawniad.

Mae’r plant yn egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau’r rhyddid i archwilio eu hardal chwarae awyr agored; er enghraifft, roeddent yn rhedeg ymysg y coed, yn archwilio gwead y canghennau ac yn dyfeisio eu gemau eu hunain. Mae’r plant yn datblygu eu sgiliau cydsymud a chorfforol yn dda. Cawsant lawer o hwyl yn rhedeg ar ôl swigod, pedlo ceir ac ymarfer gwneud hwla gyda chylch. Mae’r plant yn gwneud dewisiadau ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd rhai o’r plant yn mwynhau ymarfer cyfrif, tra bod eu ffrindiau yn ymwneud â gwahanol weithgareddau pen bwrdd, megis jig-sos, anifeiliaid fferm a deinosoriaid. Ymunodd y plant yn fywiog â chanu cyfuniad o hwiangerddi Cymraeg a Saesneg. Roeddent yn gwenu wrth ganu ac yn symud eu cyrff i’r gerddoriaeth.

Mae’r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Gwnaethant ddangos i ni sut maent yn golchi ac yn sychu eu dwylo ar ôl defnyddio’r toiled a chyn amser bwyd. Mae’r plant iau yn dyfalbarhau i fwydo’u hunain ac mae’r plant hŷn yn defnyddio eu cytleri yn dda. Maent yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol oddi wrth y staff.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
|---|---|

Mae gan y staff agwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithio yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn deall y rhan fwyaf o'u rôl a'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau diogelu cywir y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn yn eu gofal. Nid yw'r gweithdrefnau newid cewynnau a gweini byrbrydau yn cyd-fynd yn llwyr â'r canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau. Er enghraifft, nid yw offer amddiffynnol personol yn cael ei ddefnyddio'n gywir bob amser, ac ni chynigiwyd platiau i'r plant eu defnyddio yn ystod amser byrbryd, wrth fwyta eu brechdanau, er mwyn eu hatal rhag gosod bwyd yn uniongyrchol ar y bwrdd. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant y gofalir amdanynt. Mae'r staff yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta'n iach a bod yn heini drwy chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu llofnodi gan y rhieni fel tystiolaeth eu bod yn cael eu hysbysu. Dywedodd y rhieni wrthym fod y cyfathrebu â'r staff yn dda, a'u bod yn cael eu diweddaru bob dydd am gynnydd eu plentyn.

Mae'r staff yn mwynhau cyflawniadau'r plant ac yn eu canmol yn briodol. Maent yn darparu amgylchedd cartrefol ac yn cofleidio'r plant pan fo angen rhoi cysur a sicrwydd iddynt.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau'n briodol ac yn annog y plant i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu'n dda. Mae ganddynt ymagwedd sensitif ac ymatebol gyda phlant a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Arweiniodd y staff weithgaredd cylch diddorol, gan annog y plant i ganu caneuon yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn annog y plant i gymryd rhan yn llawn, gan ofyn iddynt am eu hoff ganeuon a mynegi eu hunain i'r gerddoriaeth drwy wneud ystumiau a symudiadau. Mae ffotograffau o'r plant yn eu dangos yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau; er enghraifft mwynhau mynd am dro, cael picnic, pobi a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau crefft a dathliadau diwylliannol.

## Yr Amgylchedd **Digonol**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn saff, yn ddiogel, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, dan do ac yn yr awyr agored. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd y staff yn goruchwylio'n wyliadwrus bob amser yn ystod nifer o weithgareddau chwarae awyr agored, a olygodd bod rhai o'r plant wedi gosod aeron gwyllt yn eu ceg. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r unigolyn cyfrifol wedi cadarnhau ei bod wedi cymryd camau ar unwaith ac wedi cyflwyno tystiolaeth foddhaol i'n bodloni ei bod wedi dilyn y gweithdrefnau priodol i leihau'r risg hon.

Mae asesiadau risg yn nodi'n gyffredinol y peryglon posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn adlewyrchu'r safle a'r gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn benodol. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut y dylent ymdrin ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod gweithgareddau dan do.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cynllun yr ystafell chwarae yn hybu annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae'r teganau a'r adnoddau yn addas ar gyfer oedrannau'r plant y gofalir amdanynt ac mae ganddynt ddodrefn o faint priodol. Mae ardal benodedig wedi'i neilltuo i'r plant ar gyfer storio'u heitemau personol, ac mae hynny'n meithrin ymdeimlad o berthyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ddeniadol sy'n dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae storfa dan do ar gyfer teganau ac adnoddau yn addas ac yn hygyrch i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu wedi'u trefnu'n briodol; fodd bynnag, mae'r corneli cartref yn brin o adnoddau i helpu'r plant i ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd. Nid yw llyfrau'n cael eu harddangos yn ddeniadol er mwyn annog y plant i'w darllen. Mae diffyg deunyddiau ac adnoddau naturiol ac wedi'u hailgylchu i helpu'r plant i ymarfer defnyddio eu synhwyrau. Mae amrywiaeth o adnoddau ac offer addas ar gyfer datblygu medrau symudedd, cydsymud, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael y cyfle i ddysgu am y byd naturiol ac maent wedi trefnu'r ardaloedd hyn yn effeithiol er mwyn i'r plant blannu a thyfu blodau a llysiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn weithgar, ymrwymedig ac ymroddedig ond mae angen datblygiadau a gwelliannau pellach i greu canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r datganiad o ddiben yn darparu'r wybodaeth ofynnol i'r rhieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u gweithredu'n briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno datganiad hunanasesu'r gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru ond nid yw wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn y lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg ac maent yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu'r ansawdd gofal yn llawn gwybodaeth ac yn fyfyriol, gan amlygu gwelliannau a wnaed a gweledigaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys y sylwadau a gasglwyd gan bawb sy'n defnyddio'r lleoliad i'w helpu i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella.

Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, a bod eu hyfforddiant perthnasol yn gyfredol. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yn ffeiliau cyflogaeth yr aelod newydd o staff a chofnodion unigol pob plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod presenoldeb y plant yn cael ei gofnodi'n briodol ond nid yw presenoldeb dyddiol yr holl staff yn cael ei gofnodi'n gywir. Ni chofnodir trafodaethau'r sesiynau goruchwylio un-i-un â'r staff. Nid oedd arfarniadau wedi cael eu cynnal yn gyson. Gwnaethom siarad â'r staff, a dywedon nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Dywedodd aelod o staff ei fod yn hoff iawn o'r 'naws cartrefol' sydd gan y lleoliad.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymroddedig, a dywedodd wrthym ei bod yn edrych ymlaen at ysgogi gwelliannau ar gyfer y plant a gweithio'n agos â'i staff i helpu i ddatblygu eu hymarfer. Dywedodd y staff wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn 'gefnogol' ac yn 'hawdd mynd atynt'.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw pa mor fodlon yr ydynt ar y lleoliad ac maent wedi sylwi ar welliannau cadarnhaol i ddatblygiad eu plentyn. Mae partneriaethau da wedi cael eu meithrin â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn 'toddle' noddedig ar gyfer elusen, ac yn ymweld â'r henoed mewn cartref gofal. Mae profiadau cadarnhaol o'r fath yn helpu'r plant i ddod yn gyfarwydd â'r amgylchoedd o'u cwmpas a gwella eu sgiliau cymdeithasol.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Rhaid i staff oruchwylio'r plant yn wyliadwrus bob amser yn ystod pob gweithgaredd awyr agored.

A2: Dylid sicrhau bod asesiadau risg yn adlewyrchu'r safle a'r gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn benodol.

A3: Dylid defnyddio adnoddau a chreu mwy o brofiadau chwarae i adeiladu ar chwilfrydedd naturiol y plant, er enghraifft, deunyddiau wedi'u hailgylchu, nwyddau'r cartref a theganau a chyfarpar cynaliadwy.

| Crynodeb o’r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, rydym yn amlygu’r rhain fel Meysydd i’w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i’w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 30 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yng nghofnodion unigol y plant ac nid yw wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cofnodi ei bresenoldeb dyddiol yn gyson, gan gynnwys ei seibiannau. Nid oedd pob damwain a digwyddiad wedi cael ei lofnodi gan y rhieni i ddangos eu bod wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant, bod pob aelod o'r staff yn cofnodi ei bresenoldeb dyddiol, gan gynnwys ei seibiannau, a bod pob rhiant yn cydnabod ac yn llofnodi ffurflen ddamweiniau a digwyddiadau ei blentyn er mwyn dangos ei fod wedi cael gwybod. | Newydd |
| 28 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gasglu'r holl wybodaeth ofynnol er mwyn pennu addasrwydd aelodau o staff i ddiogelu plant. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n gyson ac yn briodol er mwyn nodi meysydd i'w gwella y mae'r staff yn cael eu cymell i weithio tuag atynt er mwyn gwella canlyniadau i'r plant. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n briodol a bod y trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi. | Newydd |
| 31 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC am y staff sydd wedi gadael a'r staff sydd newydd eu penodi yn y lleoliad. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei bod yn cyflwyno'r hysbysiadau perthnasol i AGC drwy gyfrif porth ar-lein AGC. | Newydd |
| 25 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau yn gywir mewn perthynas â newid cewynnau a gweini bwyd i'r plant. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau cywir yn gyson o ran gofynion defnyddio offer amddiffynnol personol a golchi dwylo wrth newid cewyn plentyn ac wrth weini prydau a byrbrydau i'r plant. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 17/10/2022